siopa dros y ffôn

siopa ar y rhyngrwyd

siopa ar
deledu digidol

siopa trwy ffacs

siopa trwy
archebu drwy'r post

siopa dros y ffôn

siopa ar y rhyngrwyd

siopa ar deledu digidol

siopa trwy archebu drwy'r post

siopa trwy ffacs

siopa cartref: eich **hawliau** fel **defnyddiwr**

dti
Adran Diwydiant a Masnach

OFFICE OF FAIR TRADING

Siopa cartref

Os ydych yn siopa am nwyddau neu wasanaethau dros y ffôn, archebu drwy'r post, ffacs, teledu digidol, neu ar y rhyngrwyd, yna mae gennych hawliau defnyddwyr newydd bellach i gael:

- **gwybodaeth glir**
- **cyfnod ailfeddwl**
- **diogelwch ar gyfer eich cerdyn credyd yn erbyn twyll**

Mae'r rheolau newydd yma yn berthnasol i'r mwyafrif o fathau o siopa cartref. Er enghraifft, os ydych yn archebu dillad o gatalog neu hysbyseb papur newydd, crynoddisgiau neu chwaraewr 'minidisc' ar y rhyngrwyd, neu os byddwch yn ffonio i drefnu cyflenwad nwy neu drydan i'ch cartref.

Nid yw'r rheolau newydd yn berthnasol yn achos:

- gwasanaethau ariannol
- arwerthiannau
- peiriannau gwerthu a ffonau talu
- contractau ar gyfer gwerthu tir

Nid yw rhannau o'r rheoliadau newydd yn berthnasol yn achos:

- dosbarthu nwyddau megis bwyd neu ddiodydd
- gwasanaethau trafnidiaeth, llety, arlwyo neu hamdden a ddarperir ar ddyddiadau penodol

Gwybodaeth glir

Cyn i chi benderfynu prynu,

mae'n rhaid i'r gwerthwr roi'r wybodaeth ganlynol i chi:

- enw'r gwerthwr ac, os oes rhaid i chi dalu ymlaen llaw, ei gyfeiriad post
- disgrifiad o'r nwyddau neu'r gwasanaethau
- y pris, gan gynnwys pob treth
- costau dosbarthu, os byddant yn berthnasol
- trefniadau ar gyfer talu
- trefniadau ar gyfer dosbarthu nwyddau (fel arfer o fewn 30 diwrnod oni ddywedir yn wahanol yn y contract)
- yr hawl i ganslo'r archeb ac a fyddwch yn gyfrifol am y gost o ddychwelyd y nwyddau
- ar gyfer gwasanaethau, isafswm hyd y contract os caiff y gwasanaeth ei ddarparu dros gyfnod o amser (er enghraifft, nodir isafswm cytundeb o flwyddyn yn aml ar gontractau ffonau symudol)
- am ba hyd y bydd y cynnig neu'r pris yn parhau'n ddilys.

Gwerthu dros y ffôn

Os bydd rhywun yn eich ffonio i werthu nwyddau neu wasanaethau i chi, dylai nodi enw'r cwmni y mae'n ei gynrychioli a'r ffaith ei fod/bod yn gwerthu rhywbeth yn glir ar ddechrau'r sgwrs.

Ar ôl i chi brynu,

dylai'r gwerthwr anfon cadarnhad ysgrifenedig (trwy lythyr, e-bost, ffacs, ac ati) o'ch archeb a chynnwys y wybodaeth a restrir uchod, os nad yw hyn wedi'i ddarparu ar ffurf ysgrifenedig eisioes – megis mewn catalog neu hysbyseb. Fodd bynnag nid oes rhaid cadarnhau yr eitem olaf ar y rhestr uchod yn ysgrifenedig.

Dylai'r gwerthwr ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig hefyd yn nodi pryd a sut y gallwch ganslo, cyfeiriad post er mwyn cysylltu ag ef/hi, a manylion am unrhyw wasanaethau ôl-werthu a gwarantau.

Os nad oes dyddiad terfynu penodol ar gytundeb gwasanaeth neu os bydd yn para am fwy na blwyddyn, er

enghraifft contract cyflenwi teleffon, nwy neu drydan, dylech hefyd dderbyn manylion ynglŷn â phryd a sut y gallwch ddod â'r contract i ben.

Dylech gael y wybodaeth yma, fan bellaf erbyn yr amser y dosberthir y nwyddau neu, yn achos gwasanaethau, cyn neu yn union ar ôl cychwyn y contract.

Cyfnod ailfeddwl

Os byddwch yn newid eich meddwl

Mae'r gyfraith yn rhoi saith diwrnod gwaith i chi newid eich meddwl a chanslo'r archeb (ac unrhyw gytundebau credyd cysylltiol). Mae yna rai eithriadau.

Os penderfynwch ganslo rhaid i chi roi gwybod i'r gwerthwr o fewn y cyfyngiadau amser a nodir isod. Dylai hyn gael ei wneud yn ysgrifenedig (gallwch ddefnyddio'r ffurflen ganslo sydd yn y daflen hon), trwy ffacs neu e-bost. Nid yw galwad ffôn yn ddigon. Y cyfyngiadau amser yw :

- nwyddau – saith diwrnod gwaith ar ôl y diwrnod y gwnaethoch eu derbyn
- gwasanaethau – saith diwrnod gwaith ar ôl y diwrnod y gwnaethoch gytuno i fynd ymlaen â'r contract

Os nad ydych wedi cael y wybodaeth sy'n ymwneud â'ch hawl i gyfnod ailfeddwl, bydd y cyfnod canslo yn hirach.

Cofiwch fod yn rhaid i chi gymryd gofal o'r nwyddau ac un ai eu dychwelyd i'r gwerthwr (neu gynrychiolydd y gwerthwr) neu eu paratoi yn barod i'w casglu.

Os byddwch wedi talu ymlaen llaw, rhaid i'r gwerthwr ad-dalu eich arian o fewn 30 diwrnod. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am gost dychwelyd y nwyddau.

Os byddwch wedi talu am y nwyddau trwy gytundeb credyd, gan gynnwys hurbwrcas, a gafodd ei drefnu neu'i awgrymu gan y gwerthwr, caiff y cytundeb hwn ei ganslo'n awtomatig.

Mewn rhai achosion arbennig nid oes gennych yr hawl i gyfnod ailfeddwl.

Rhai achosion arbennig lle nad oes gennych yr hawl i ganslo

- Gwasanaethau a ddarperir o fewn saith diwrnod gwaith: os byddwch yn cytuno eich bod am i wasanaeth ddechrau cyn diwedd y cyfnod ailfeddwl ni fydd gennych hawl i ganslo unwaith y bydd y gwasanaeth hwnnw wedi dechrau. Ond mae'n rhaid i chi gael eich hysbysu yn ysgrifenedig na allwch ei ganslo cyn i chi lofnodi'r contract, neu fel arall bydd gennych yr un hawliau cyfreithiol i gyfnod ailfeddwl ag i gontractau gwasanaeth eraill
- Nwyddau wedi'u gwneud i'ch gofynion personol
- Nwyddau na allant oherwydd eu natur gael eu dychwelyd neu sydd yn debygol o ddiriwio'n gyflym (e.e. blodau neu fwydydd ffres)
- Recordiadau clywedol neu fideo wedi'u selio neu feddalwedd cyfrifiadurol yr ydych wedi'i agor
- Papurau newydd, cyfnodolion neu gylchgronau
- Gwasanaethau betio, gamblo neu loteri

Diogelwch ar gyfer eich cerdyn credyd

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud hi'n fwy diogel i chi ddefnyddio'ch cerdyn credyd neu gerdyn talu arall ar y rhyngrwyd, dros y ffôn neu ar gyfer mathau eraill o siopa cartref. Os bydd person arall yn defnyddio'ch cerdyn talu mewn modd anonest neu dwyllodrus ar gyfer unrhyw ffurf o siopa cartref gallwch ganslo'r taliad a rhaid i'r cwmni a ddosbarthodd y cerdyn ad-dalu'r arian i'ch cyfrif.

Bydd y cwmni a ddosbarthodd y cerdyn am wybod cyn gynted ag y bo modd os yw eich cerdyn wedi'i golli neu'i ddwyn neu os byddwch yn darganfod bod rhywun wedi defnyddio manylion eich cerdyn mewn modd anonest.

Ble i gael help

Mae'r daflen hon yn ddatganiad syml o'r gyfraith ac nid yw'n cymryd lle darpariaethau'r Rheoliadau.

Am fwy o gyngor ar eich hawliau cysylltwch â'ch Canolfan Cynghori leol. Bydd y cyfeiriad a'r rhif ffôn yn y llyfr ffôn.

Os gallwch ddefnyddio'r rhyngrwyd gallwch gael cyngor ar-lein ar wefan Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cynghori ar www.adviceguide.org.uk, y Swyddfa Masnachu Teg ar www.oft.gov.uk neu drwy edrych ar wefan Porth Defnyddwyr y DTI ar www.consumer.gov.uk

Os ydych o'r farn nad yw'r gwerthwr wedi cydymffurfio â'r gyfraith dylech, yn gyntaf, gwyno i'r gwerthwr neu ei gymdeithas fasnach, os bydd yn aelod o gymdeithas.

Os oes gennych gŵyn y credwch nad yw wedi ei datrys gan y gwerthwr neu unrhyw un o'r dulliau cwyno sydd ar gael, cysylltwch â'ch Adran Safonau Masnach leol neu â'r Swyddfa Masnachu Teg.

Gellir dod o hyd i gyfeiriad a rhif ffôn eich Adran Safonau Masnach leol yn y llyfr ffôn o dan 'Awdurdod Lleol', neu ar y rhyngrwyd trwy ymweld â www.tradingstandards.gov.uk a nodi eich cod post.

Gallwch gysylltu â'r Swyddfa Masnachu Teg ar eu llinell ffôn i ddefnyddwyr 08457 22 44 99, trwy eu gwefan, a nodir uchod, neu drwy ysgrifennu at:

The Office of Fair Trading, Fleetbank House,
2–6 Salisbury Square, London EC4Y 8JX

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig ar bapur wedi'i ailgylchu gydag isafswm sgôr HMSO o 75. Hydref 2000. Adran Diwydiant a Masnach. ⓗ Hawlfraint y Goron. www.dti.gov.uk/ DTI/Pub 5161/3k/10/00/NP. URN 00/1231.

FFURFLEN GANSLO

AT

Enw: _____

Cyfeiriad: _____

_____

_____

_____

Oddi wrth

Enw (mewn llythrennau bras): _____

Cyfeiriad: _____

_____

_____

_____

Hysbysaf/Hysbyswn* drwy hyn fy mod/ ein bod* yn dymuno canslo fy nghontract/ ein contract

Rhif cyfeirnod/cod/dynodwr arall*

_____

Llofnodwyd: _____

Dyddiad: _____

*dilëer lle bo angen